# Pwyllgor Rheoli Datblygu

## 13 Rhagfyr 2023

Yn bresennol (Personol)
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Mr GA Jones, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd C Williams.

Yn bresennol (Rhithiol)
Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd B Price,

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements â'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o gais NP/22/0712/FUL]

Swyddogion yn bresennol
Mr T Phillips (Cyfreithiwr), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Mrs K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Mr R James (Cynllunydd Hŷn), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 12.00pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd A Wilcox. Roedd y Cynghorydd D Clements wedi rhybuddio y byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach am ei bod ynghlwm â chyfarfod arall.

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| *Cofnod 6(c) isod* NP/22/0712/FUL **-** Maes gwersylla ar gyfer 40 o leiniau gan gynnwys seilwaith, draenio, cysylltiadau trydan a chyfleusterau ystafell ymolchi – Parke Farm, Merrion | Cynghorydd S Alderman | Aros yn y cyfarfod |

| | | |
|---|---|---|
| Cofnod 7 isod EC19/0007 – The Pool House, Hasguard Cross | Cynghorydd SL Hancock | Gadael y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei ystyried |

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Nodwyd bod y gair 'ystyried' wedi ei adael allan o'r ail baragraff ar dudalen 6 fel y byddai'r frawddeg yn darllen fel ' dyletswydd i ystyried cefnogi'r sector twristiaeth'.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd James, wedi'i eilio gan Mr Jones **PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 a'u llofnodi gan gynnwys y diwygiad uchod.

**NODWYD.**

**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| Rhif cyfeirnod | Cynnig | Siaradwr |
|---|---|---|
| NP/22/0712/FUL *Cofnod 6(c) cyfeir* | Maes gwersylla ar gyfer 40 o leiniau gan gynnwys seilwaith, draenio, cysylltiadau trydan a chyfleusterau ystafell ymolchi – Parke Farm, Merrion | Steve Hole – Asiant |

**5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth

benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

**NODWYD**

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a)

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD: | NP/23/0246/FUL |
| YMGEISYDD: | Mr a Mr B a P Rees |
| CYNNIG: | Newid defnydd yr ardal golff byr ac estyniad i gynnwys 10 o fythynnod/ carafanau symudol hunangynhwysol a'r lle parcio ynghyd â gwelliannau ecolegol |
| LLEOLIAD: | Maes Carafanau a Gwersylla Tretio, Tyddewi, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 6DE |

Adroddwyd bod y gwaith arfaethedig ar gyfer ymestyn y maes carafanau yn Nhretio, yn cynnwys newid defnydd yr ardal golff byr i ganiatáu gosod deg o garafanau sefydlog ychwanegol ynghyd â thirweddu ychwanegol. Ystyriai'r swyddogion bod penderfynu'r cais yn dibynnu ar effaith safle'r estyniad arfaethedig ar nodweddion arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol, ac o'r herwydd gofynnwyd i'r Aelodau gynnal ymweliad safle fel Pwyllgor i weld y safle a'r ardal oddi amgylch cyn ystyried y cais cynllunio mewn cyfarfod Pwyllgor maes o law. Nodwyd bod y cais wedi derbyn cryn dipyn o wrthwynebiad o blith y cyhoedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Hancock y dylid trefnu ymweliad safle ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Williams.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais er mwyn trefnu archwiliad safle.**

(b) CYFEIRNOD: NP/22/0571/FUL
YMGEISYDD: Mr a  Mrs R a G Lewis
CYNNIG: Dymchwel yr adeiladau amaethyddol presennol ac ymestyn y dalar breswyl i ganiatáu adeiladu estyniadau i gynnwys tŷ, garej newydd, stablau/storfa, a newid defnydd i gyfleusterau a thywod i geffylau ar y tir cyfagos ynghyd â gwaith allanol cysylltiedig
LLEOLIAD: Lleine, Nanhyfer, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0NY

Adroddwyd bod y prif eiddo yn fwthyn unllawr ar wahân gydag estyniadau grisiog ar un pen o ffurf wreiddiol y bwthyn. Roedd y cais wedi'i ddiwygio'n sylweddol ers ei gyflwyno'n wreiddiol, ac roedd hi nawr yn bosib i'r swyddogion ei gefnogi. Nodwyd bod y Manège, a oedd wedi'i waredu, nawr yn ffurfio rhan o'r cais drachefn am ei bod wedi'i gadarnhau nad oedd wedi'i leoli ar y tir amaethyddol gorau na mwyaf hyblyg.

Roedd Cyngor Cymuned Nanhyfer wedi gwrthwynebu'r cais ac roedd eu sylwadau wedi'u gosod allan yn yr adroddiad ac fe ddeliwyd â nhw gan y swyddogion. Yn y cyfarfod, nododd y Swyddog bod y Cyngor Cymuned wedi cyflwyno gwrthwynebiadau i bob un o ddiwygiadau'r cynlluniau, ac roedd y sylwadau hyn wedi'u dangos fel rhan o'i chyflwyniad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ystyriaeth fanwl o'r polisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu (Dyfodol Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol 2) statudol, yn ogystal â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11). Ystyriwyd, ar ôl trafod pob ystyriaeth berthnasol, nad oedd yr estyniadau arfaethedig i'r bwthyn a'r dalar yn ormodol o ran crynswth na hyd, ac na fydden nhw'n effeithio'n andwyol ar gymeriad presennol y prif dŷ. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo gydag amodau.

Yn y cyfarfod argymhellodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y dylid cynnwys amod ychwanegol na ddylai'r adeilad mas/sied storio a ganiateir yn lle'r un flaenorol gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ffurf o lety preswyl, er mwyn atal gormodedd o wydro ar y trychiad gogledd gorllewinol. Ychwanegodd hefyd, ers ysgrifennu'r adroddiad, roedd sylwadau wedi dod i law wrth yr ecolegydd a oedd wedi'i fodloni gan yr adroddiad rhychwantu a ddiweddarwyd.

Roedd yr Aelodau wedi'u bodloni gan y cais oedd ger eu bron, a nodwyd y gwaith caled a gyflawnwyd gan y swyddogion i'w baratoi i'r man roedd wedi cyrraedd. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo gydag amodau, gan gynnwys yr amod ychwanegol, ei gynnig gan Mr Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Owens.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, goleuo, lefelau'r ddaear, deunyddiau allanol, gwaredu hawliau datblygu wedi'u caniatau, tirweddu, diogelu coeden, dim defnydd masnachol o'r manège, llygru a dim defnydd preswyl o'r adeilad y tu fas.**

[Ymunodd y Cynghorydd Clements â'r cyfarfod ar-lein wrth ystyried y cais canlynol ond ymatalodd rhag pleidleisio.]

| | | |
|---|---|---|
| (c) | CYFEIRNOD: | NP/22/0712/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr C Goldsworthy |
| | CYNNIG: | Maes gwersylla ar gyfer 40 o leiniau gan gynnwys seilwaith, draenio, cysylltiadau trydan a chyfleusterau ystafell ymolchi |
| | LLEOLIAD: | Parke Farm, Merrion, Penfro, Sir Benfro, SA71 5DU |

Adroddwyd bod y cais yn cynnwys dau badog pori i'r gogledd o'r ffermdy. Roedd yr Asiant ar gyfer y safle wedi cadarnhau bod y safle wedi'i ddefnyddio'n hanesyddol o dan drwydded eithrio sefydliad a oedd mewn grym tan 27 Ionawr 2022. Roedd hyn wedi caniatáu defnydd o'r safle ar gyfer hyd at bum carafán a deg pabell am gyfnod o 60 diwrnod. Ers i'r drwydded ddod i ben roedd y safle wedi bod yn gweithredu o dan y rheol 28 diwrnod. Yn y cyfarfod eglurodd y swyddog bod y tir oedd o dan sylw yn y cais hwn yn rhan o'r safle oedd wedi'i eithrio yn y gorffennol, yn groes i'r hyn oedd wedi'i nodi yn ei adroddiad. Nodwyd gan fod y drwydded wedi dod i ben ym mis Ionawr 2022, doedd hyn ddim yn golygu y gellid troi at hynny a doedd dim angen ystyried hynny felly.

Adroddwyd hefyd bod yna gyfres o gyfleusterau heb eu hawdurdodi ar y safle ar ffurf adeileddau pod yn cynnwys cyfleusterau toiled a golchi llestri, yn ogystal â phwyntiau cysylltu trydan.

Esboniai'r adroddiad bod y tir wedi'i gofrestru yn dir amaethyddol Gradd 2 h.y. ei gofrestru fel y gorau a'r mwyaf hyblyg (BMV) na ddylai gael ei ddatblygu oni bai bod yna angen gwirioneddol i wneud hynny. Roedd y swyddogion o'r farn bod gwrthwynebiad mewn egwyddor i ddatblygu Tir Amaethyddol BMV a bod y datblygiad felly yn groes i Bolisi Cenedlaethol fel roedd wedi'i osod allan yn adrannau 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru 11 a NCT 6. Er bod y cynnig yn cael ei ystyried yn unol â pholisïau Economi Ymwelwyr a Charafanau, Gwersylla a Datblygu Cabannau y CDLl2 (Polisi 28 a Pholisi 41), doedd yr ystyriaeth hynny ddim yn gorbwyso'r croesdynnu sylweddol o ran y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a fyddai'n golygu colli Tir Amaethyddol BMV, ac roedd y gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r cynnig hwn yn dal yn ei le.

Roedd adroddiad y Swyddog yn gosod allan ystyriaeth fanwl o'r polisïau perthnasol oedd yn y Cynllun Datblygu (Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Datblygu Lleol 2) statudol a'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11). Ystyriwyd, ar ôl cymryd ystyriaeth o bob dim perthnasol, nad oedd y safle carafanau a gwersylla arfaethedig, fel roedd y cais wedi'i gyflwyno, yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r argymhelliad oedd gwrthod y cais.

Yn y cyfarfod, eglurodd y swyddog mai dim ond deg erw oedd y daliad ac nad oedd yn credu bod unrhyw weithgaredd amaethyddol ar y fferm ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y polisi Cenedlaethol wedi'i fwriadu i ddiogelu tir BMV hyd byth, fel ei fod ar gael ar gyfer defnydd amaethyddol yn y dyfodol. Hefyd, pe bai'r safle carafanau yn parhau i weithredu o dan y rheol 28 diwrnod, fe fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeileddau oedd ar y safle.

Roedd yna un siaradwr, yr Asiant, Mr Steve Hole. Esboniodd bod y gwrthwynebiad o du'r swyddogion wedi'i gyflwyno yn hwyr yn y broses ac na chodwyd unrhyw rwystr yn ystod y cyfnod cyn-gyflwyno cais. Nododd bod y polisi Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir gorau a mwyaf hyblyg (cofrestru 1-3a) gael ei gadw ar gyfer y dyfodol, ac y byddai cryn bwysau yn cael ei roi mewn penderfyniadau Rheoli Datblygu i ddiogelu tir o'r fath. Fodd bynnag, nododd nad oedd y polisi yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir i fod yn gynhyrchiol ond yn gwahardd datblygiad a fyddai'n golygu na fyddai ar gael ar gyfer cynhyrchu amaethyddol. Roedd y cyfarwyddyd yn mynd yn ei flaen i gynghori y byddai'n anodd gwyrdroi datblygiad meddal, megis cwrs golff, am y byddai'n ddrudfawr a phrin yn ymarferol, ond nododd Mr Hole na fyddai defnyddio ar gyfer gwersylla yn arwain at ddatblygiad fyddai'n effeithio ar dopograffi nag ansawdd y pridd ac y byddai yn bosib felly ei ddychwelyd i'w gyflwr presennol heb unrhyw anhawster.  Ni fyddai'r tir amaethyddol felly yn cael ei golli. Nododd hefyd bod datblygiad a ganiatawyd yn caniatáu defnydd tymhorol fel maes gwersylla, ac fe gynghorodd ymhellach bod yr ymgeiswyr yn denantiaid a bod rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod y tir mewn cyflwr da pan fyddai cytundeb eu tenantiaeth yn dod i ben. Aeth yr asiant yn ei flaen i ddweud bod y polisi dim ond yn caniatáu datblygu tir BMV os oedd yna angen gwirioneddol ar gyfer y datblygiad ond nad oedd yn dweud beth fyddai'r angen hwnnw.

Wrth droi at safle Parke Farm, nododd Mr Hole bod y dalar gyfan o werth hanesyddol, ac nad oedd patrwm y cae wedi newid ers ei ddangos ar y Map Degwm. Roedd y tŷ wedi'i gofrestru yn adeilad Gradd 11 ac roedd yna gyfamod yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei gadw gyda'r bwthyn. Nododd bod yr ymgeiswyr yn frwd dros gadw'r adeilad ac mai'r ffordd orau o sicrhau hynny oedd sicrhau defnydd cynaliadwy, ac felly roedd o'r farn nad oedd digon o bwys wedi'i roi i ddiogelu'r adeilad rhestredig, a

gormod o bwys wedi'i roi i'r tir BMV pan na fyddai'r datblygiad yn achosi unrhyw niwed iddo. Nododd bod CNC wedi cefnogi'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd Owens ei fod o'r farn y byddai'n anodd gwneud bywoliaeth o fferm o'r maint hwn, ac roedd o'r farn y byddai'n ddigon hawdd newid y defnydd o wersylla nôl i amaethu yn y dyfodol, am nad oedd adeiledddau parhaol yn rhan o'r cais. Roedd yn amharod i gefnogi gwrthod y cais a chynigiodd y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall. Cytunai Aelodau eraill na fyddai yn ôl pob tebyg yn ddichonadwy i ffermio'r daliad fel yr oedd, er ansawdd y tir, a fodd bynnag, nodwyd bod y ffordd B4319 yn eithaf prysur ac y byddai'n rhaid edrych yn ofalus ar fynedfa i'r safle pe bai 40 o leiniau yn cael eu darparu.

Cytunodd y swyddog nad oedd fferm 10 erw yn debyg o fod yn ddichonadwy ond y byddai'n bosib ei ffermio fel rhan o ddaliad mwy o faint neu fel menter ar raddfa fechan. Atgoffodd y Pwyllgor hefyd bod caniatâd yn cael ei ofyn ar gyfer 40 o leiniau, yn hytrach na lleiniau gwersylla'n benodol, a gallai defnydd o'r fath arwain at geisiadau am siop neu floc cawod. Cynghorodd y Rheolwr Rheoli Datblygu pe bai'r Aelodau yn cymeradwyo'r cais byddai'n bosib gosod amodau ar y nifer o garafanau a phebyll. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y ffaith bod Prif Swyddog Cynllunio Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr yn cyfeirio yn benodol at areai solar, gan nodi bod unrhyw dir BMV a gollir yn ystyriaeth berthnasol, pa mor hawdd bynnag y byddai adfer y tir hwnnw at ddefnydd amaethyddol.

Cafodd y cynnig i ohirio'r cais er mwyn galluogi'r Pwyllgor drefnu Ymweliad Safle ei roi i bleidlais ac fe'i collwyd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Cafodd cynnig i wrthod y cais yn unol ag argymhelliad y swyddog ei roi gerbron gan y Cynghorydd Williams, ac fe gafodd cynnig i gymeradwyo'r cais er mwyn cefnogi'r diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro trwy ddarparu llety fforddiadwy h.y. am resymau economaidd hefyd ei roi gerbron gan y Cynghorydd Owens a'i eilio gan y Cynghorydd Price. Cynghorodd y Cyfarwyddwr pe bai'r Aelodau yn cymeradwyo'r cais byddai'n rhaid iddi gyflwyno Trefn Cyfnod Oedi'r Awdurdod am y byddai penderfyniad o'r fath yn arwyddocaol o ran gosod cynsail.

Eglurodd y swyddog bod yna drafodaethau wedi'u cynnal gyda'r ymgeiswyr ynghylch ffyrdd a lleiniau caled ar y safle ond fe'u cynghorwyd na fyddai adeiledddau o'r fath yn cael eu cefnogi. Cafodd y cynnig i wrthod ei eilio gan Dr Heath-Davies.  Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygu pe bai'n cael ei wrthod y byddai gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio, ac y gallai cais gael ei gyflwyno yn gofyn am gadw unrhyw adeiledddau fel rhan o safle trwyddedig, neu byddai'n bosib cymryd camau gorfodol pe bai

angen.  Awgrymodd yr Aelodau y byddai gweithdy tir BMV yn ddefnyddiol.

Pleidleisiwyd ar y cynnig i wrthod y cais ac fe'i henillwyd.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Byddai'r cais yn arwain at golli Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg (Gradd 2). Hyn yn groes i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 a Nodyn Cynghori Technegol 6.**

[Datgelodd y Cynghorydd Hancock bod ganddo fuddiant rhagfarnol yn y mater canlynol a gadawodd y cyfarfod.  Cyflwynodd Mrs Hoss a'r Cynghorydd Price eu hymddiheuriadau hefyd gan adael y cyfarfod.]

**7. Materion Gorfodol: EC19/0007 – The Pool House, Hasguard Cross**

Roedd yr adroddiad yn gosod allan hanes cynllunio mater gorfodol yn ymwneud â gwrthod cydymffurfio ag amod pedwar o Ganiatâd Cynllunio NP/12/0614 (dyddiedig 21/06/13).  Roedd hyn yn ymwneud â chadw cartref mudol (Annedd Menter Wledig) ar y safle a gymeradwywyd am dair blynedd yn unig o ddyddiad y penderfyniad ac roedd i'w waredu o'r safle yn llwyr ar neu cyn 19/06/16.

Yn dilyn gwrthod nifer o geisiadau i geisio cadw'r cartref mudol, roedd Rhybudd Torri Amod wedi'i gyflwyno ar 28/03/23 yn galw am waredu'r cartref mudol yn barhaol ynghyd â phob dim oedd yn ei gefnogi o'r tir erbyn 01/11/23. Yn dilyn archwiliad safle gan swyddogion ar 21/11/23 roedd yn amlwg bod y cartref mudol yn dal ar y tir yn groes i ofynion y Rhybudd Torri Amod, a gofynnwyd am awdurdod felly i gyfarwyddo Cyfreithwyr i gychwyn achos erlyn mewn Llys Ynadon yn erbyn y personau oedd yn gyfrifol yn unol ag adran s187A(9) o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel mae wedi'i diwygio), ar y sail eu bod, heb esgus rhesymol, heb gydymffurfio â rhybudd oedd wedi'i weini arnynt o dan s187A, a'u bod o'r herwydd yn euog o drosedd ac yn agored i gael dedfryd o ddirwy

Yn y cyfarfod cynghorodd y Cyfarwyddwr bod llythyr wedi dod i law wrth gynghorwyr cyfreithiol perchnogion y cartref mudol yn dweud nad oedd gan y Rhybudd Torri Amod unrhyw rym cyfreithiol am fod y cartref mudol wedi'i ddiffinio yn adeilad yn ystod ystyriaeth yr Awdurdod o'r cais Tystysgrif Cyfreithlondeb, ac nad oedd felly mwyach yn gartref mudol. Roedd yr Awdurdod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol a doedden nhw ddim yn ystyried bod y llythyr yn darparu unrhyw sail ar gyfer dadl yr amddiffyniad a'r argymhelliad o hyd oedd y dylid cyfarwyddo Cyfreithwyr i gymryd camau erlyn.

Gofynnodd yr Aelodau ynghylch costau i'r Awdurdod hyd yma a dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n cynghori Aelodau ynghylch y manylion hynny y tu fas i'r cyfarfod.

Ar gynnig gan y Cynghorydd Clements, wedi'i eilio gan y Cynghorydd James, **penderfynwyd** y dylai Cyfreithwyr gael eu cyfarwyddo i gychwyn camau erlyn mewn Llys Ynadon, yn erbyn y personau sy'n gyfrifol yn unol ag adran s187A(9) o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y mae wedi'i diwygio), ar y sail eu bod, heb esgus rhesymol, heb gydymffurfio a rhybudd oedd wedi'i weini arnyn nhw o dan s187A a'u bod o'r herwydd yn euog o drosedd ac yn agored i gael dedfryd o ddirwy

**8. Apeliadau**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad am ddau apêl (yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd yn nwylo Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch y diweddaraf a lle'r oedden nhw wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Adroddwyd bod y ddau gais - NP/22/0693/FUL ar gyfer annedd pedair ystafell wely newydd ynghyd â garej a mynedfa gerbydau ar dir i'r gorllewin o Charnwood, Ffordd y Castell, Dale a NP/22/0503/FUL ar gyfer gosod tŵr telegyfathrebu 51 metr o uchder yn cefnogi naw o ddysglau trosglwyddo a chwe antena ar gyfer ffonau mudol, caban cadw offer, a dau gabinet cadw offer ar y ddaear, ffens ddiogelwch gadwyn o amgylch yr offer a datblygiad fyddai'n ychwanegol i hynny yng Nghoedwig Pantmaenog, Rhos-y-bwlch - wedi'u gwrthod.

Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad bod yna gais wedi dod i law yn ymwneud ag un o'r adeiladau oedd yn rhan o apêl oedd ar y gweill yn Nhrewern Nanhyfer, a'r gobaith oedd cyflwyno hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr. Roedd yr apêl yn cael ei ddirymu dros dro nes penderfynu'r cais.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheol Datblygu a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 heb eu diwygio. |